# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Catrin Thomas** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 913** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ail-Fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Fod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r model o Glwb Ieuenctid Sirol, Opsiwn 3 gyda'r diwygiadau a nodir ym mharagraff 10.1 ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid.

1.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio £24,800 o'r arbedion o 2018/19 i 2019/20 er mwyn cyfarch peth ariannu o'r mudiadau gwirfoddol yn 2018-19 fel nodir yn rhan 10.4.3 o'r adroddiad hwn.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r seiliau dros argymell Ail fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid i ymateb i benderfyniad Her Gwynedd y Cabinet.

### 3 CEFNDIR

**3.1** Mae darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000. Mae Llywodraeth Cymru (LLC) yn cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid. Mae LLC yn gwneud hyn ar gyfer Gwaith Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol drwy "Cyfarwyddyd a Chanllawiau Ymestyn Hawliau (2002)", Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2014-12018; Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad 2015-2018; a'r Siarter Ieuenctid 2016.

**3.2** Mae Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yn cyfrannu tuag at gynnal pobl ifanc drwy'r cyfnod hwnnw o'u harddegau i fod yn oedolion (11-25 oed). Mae pobl ifanc yn derbyn Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd gan nifer o fudiadau gwahanol all gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth (Gwynedd-Ni), gwasanaethau iechyd, gwasanaeth ieuenctid, gwasanaethau addysg, astudio ac hyfforddi, gwasanaethau tai a lletya, a mynediad i wasanaethau teithio a chludiant. Ac i'r bobl ifanc hynny sydd angen mwy o gymorth mae gwasanaethau arbenigol ar gael megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cyfiawnder a throsedd,


gwasanaethau incwm a budd-daliadau a gwasanaethau cynghori fel Barnardos, Childline, NSPCC ac ati.

**3.3** Tu hwnt i'r Gwasanaeth Cymorth mae yna nifer fawr o weithgareddau, clybiau, cymdeithasau ar gyfer pobl ifanc drwy'r sir sy'n tynnu pobl ifanc at ei gilydd i fwynhau'r pethau hynny sydd yn eu diddori, ac i gymdeithasu gyda'u cyfoedion yn annibynnol o'u rhieni/gwarchodwyr a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd megis clybiau chwaraeon amrywiol, corau, grwpiau celfyddydol, aelwydydd yr Urdd, Clybiau Ieuenctid Capeli ac Eglwysi, cadetiaid, Clybiau Ffermwyr Ifanc.


## 4. Y sefyllfa bresennol

4.1 Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor (2016-17) yn

- rhedeg 39 o glybiau ieuenctid yn ystod tymor ysgol yn unig, i bobl ifanc 11-25 oed
- gyda 5625 o aelodau ( rhwng ei glybiau ieuenctid ei hun a'r clybiau a ariennir drwy grant i fudiadau gwirfoddol),




- mae'r clybiau yn rhedeg prosiectau a gweithgareddau o ddysgu anffurfiol gyda 1307 o bobl ifanc yn ennill achrediad cenedlaethol a 2740 yn ennill cymhwyster lleol,




- mae tîm rheoli o 4 llawn amser yn gweinyddu a rheoli hyd at 100 o weithwyr clybiau sy'n gweithio rhwng 3 – 11 awr yr wythnos yr un,
- mae 5 gweithiwr ieuenctid llawn amser (ariennir gan grant) yn rhoi cymorth a chefnogaeth i grwpiau o bobl ifanc mewn 9 ysgol uwchradd,
- rhoi grantiau i'r Urdd (£35,960), Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd (£37,880), Geidiaid (£750) a'r Sgowtiaid (£750) tuag at eu costau rhedeg.

4.1 Mae cyllideb gyfredol (dan reolaeth) y Gwasanaeth Ieuenctid yn £995,300.

4.2 Ym mis Mawrth 2016 penderfynodd y Cyngor drwy Her Gwynedd i dorri £200,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2017-18, ynghyd a chyflawni targed effeithlonrwydd o £70,000 erbyn diwedd Mawrth 2019.

4.3 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn sgil y wasgfa ariannol ar y Cyngor eisoes gweithredu arbedion o £476,545 rhwng 2010/11 a 2017/18. Mae'r gwasanaeth wedi ceisio sicrhau'r effaith lleiaf posib ar bobl ifanc Gwynedd drwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd i leihau costau. Mae darganfod arbedion oddi fewn i'r model darparu presennol yn profi'n anodd. Os cymeradwyir y cynllun arfaethedig yma o ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid gellid cyflawni'r arbedion a chyfarch y toriad.

4.4 Mae £270,000 o leihad yn dod a chyllideb (dan reolaeth) y Gwasanaeth Ieuenctid i £725,300 o 2017-18 ymlaen.

## 5. Pam newid?

5.1 Cynhaliwyd Adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod 2015-2017

5.2 Mae'r adolygiad wedi cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid presennol.

5.3 Roedd yr adolygiad yn cynnwys rhaglen ymgysylltu er mwyn trafod gyda defnyddwyr y gwasanaeth presennol, pobl ifanc nad ydynt yn ddefnyddwyr, partneriaid mewnol ac allanol, ysgolion, yn ogystal â'r mudiadau hynny sy'n

derbyn grant gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd,  er mwn sicrhau eu mewnbwn i'r adolygiad ac i'r gwaith dilynol o adnabod opsiynau ar gyfer y dyfodol.

5.4 Dangosodd yr Adolygiad fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn gorfod newid oherwydd ei fod yn wynebu'r heriau canlynol :

| | |
|---|---|
| **Gallu i ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl ifanc.** | Drwy'r gwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc (gwerthuso clybiau unigol, grwpiau ffocws, holiaduron ac ati) maent wedi adrodd fod y materion canlynol yn bwysig iddyn nhw, ac yn faterion y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt - diogelwch, hunanddelwedd, rhywioldeb a pherthnasau iach, iechyd a lles meddwl, datblygu sgiliau bywyd nad ydynt yn eu cael gartref nac yn yr ysgol, datblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau parod am waith. Mae pobl ifanc wedi adrodd fod cymdeithasu a chael hwyl gyda'u ffrindiau yn parhau i fod yn bwysig iddynt.<br><br>Mae'r ymgysylltu gyda phartneriaid a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc yn nodi y gall y Gwasanaeth Ieuenctid gyfrannu tuag at yr agenda ataliol, gan fod gweithwyr ieuenctid mewn sefyllfa i fedru ymgysylltu, cefnogi a gweithio gyda phobl ifanc mewn sefyllfaoedd anffurfiol i daclo rhai materion. |
| **Gallu'r Gwasanaeth i ymateb i'r newid yn y cyd-destun polisi / strategol Gwaith Ieuenctid** | Er bod y gofyniad statudol drwy'r Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000 yn parhau'r un peth, mae cyfarwyddiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn gwyro Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc gyda'u dysgu a'u haddysg. Mae pwyslais hefyd ar i Wasanaeth Ieuenctid fod yn gwyro i gefnogi pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. |
| **Gallu'r Gwasanaeth i ymateb i Dueddiadau'r Boblogaeth** | Mae data yn dangos tueddiadau a phatrymau ymddygiad ymysg y grŵp oedran 11-25 oed. Mae'r  tueddiadau yn amlygu anghenion ac ymddygiadau peryglus gan bobl ifanc mewn meysydd megis iechyd, beichiogrwydd, cam-ddefnyddio sylweddau, lles meddyliol. Mae'r gwaith ymgysylltu gyda phobl ifanc yn ategu hyn. |
| **Gallu'r Gwasanaeth i recriwtio a chynnal gweithlu** | Mae ymgysylltu gyda'r staff, edrych ar asesiadau risg a chynllun busnes y gwasanaeth wedi amlygu fod recriwtio, cynnal, hyfforddi a gweinyddu gweithlu sesiynol yn her. Mae bron i 100 gweithiwr yn gweithio 3.7, 7.4 neu 11.1 awr yr wythnos, yn cynnal clybiau ieuenctid ar hyn o bryd, ac mae'n anoddach denu gweithwyr newydd i'r math yma o swyddi. Mae'r strwythur sesiynol hwn hefyd yn golygu nad oes hyblygrwydd yn y gwasanaeth i ymateb i faterion, anghenion pobl ifanc y tu allan i'r oriau / nosweithiau y cynhelir y clybiau ieuenctid. Mae'r adborth gan bobl ifanc wedi dangos eu bod yn dymuno cael mynediad i weithiwr ieuenctid drwy'r ysgol, yn y gymuned, ac ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw, megis penwythnos, gwyliau ysgol, ar ôl ysgol neu gyda'r nos. |

| | |
|---|---|
| **Gallu'r Gwasanaeth i gyfarch y Gyllideb** | Mae'r adolygiad hwn, ac yn benodol y gwaith o ymgysylltu gyda'n rhan-ddeiliaid ar sut i ymateb i'r heriau uchod, wedi ei osod oddi fewn i gyd-destun ariannol heriol. Penderfyniad 'Her Gwynedd' y Cyngor ym mis Mawrth 2016 oedd torri cyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid o £200,000, yn ychwanegol i'r targed arbedion effeithlonrwydd o £70,000. Golyga'r penderfyniad hwn na all y Gwasanaeth ar ei ffurf bresennol fod yn opsiwn i'r dyfodol. |

5.5 Roedd yr adolygiad a'r adborth o'r gwaith ymgysylltu yn awgrymu y dylai'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc

- i ddysgu a datblygu eu sgiliau
- gyda'u datblygiad personol,
- gyda chefnogaeth iechyd a lles

Dylai'r help hwnnw sicrhau fod pobl ifanc yn gallu ymwneud yn llawn gyda'u haddysg, eu hyfforddiant, ac wedi eu paratoi ar gyfer fyd gwaith, ac yn gallu cymryd rhan lawn a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

## 6. Adnabod a Gwerthuso'r Opsiynau

6.1 Mae rhestr hir o opsiynau wedi eu hadnabod i ail-fodelu a lleihau'r Gwasanaeth. Mae nifer wedi eu diystyru oherwydd ar eu pennau eu hunain ni fyddent yn cyfarch y lleihad yn y gyllideb, megis:

- Lleihau neu Ddileu Grantiau 3ydd sector
- Dileu Gwasanaeth Bws Ieuenctid
- Dileu Gwasanaeth Dug Caeredin
- Rhesymoli trefniadau eiddo ac adeiladau
- Rhesymoli a dileu fflyd bysiau mini

Mae opsiynau eraill wedi eu diystyru oherwydd y risgiau gweithredol, a chasgliadau arolygon ac astudiaethau dichonolrwydd cenedlaethol i fodelau darparu amgen.

6.2 Adnabuwyd 4 Opsiwn a'u cyflwyno i'r Cabinet ar 24 o Hydref 2017, sef:

| | Be ydy o? | Sut byddai o'n edrych? |
|---|---|---|
| Opsiwn 1 | Dal i ddarparu Clybiau Ieuenctid tymor ysgol i rai 11-25 oed, a rhoi peth grant i rai mudiadau gwirfoddol, ond gwneud llai ohono.<br><br>(cau clybiau mewn cymunedau gwledig a rhoi llai o grant i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Geidiaid a'r Sgowtiaid) | Cynnal 10 Clwb Ieuenctid yn<br>1. Maesgeirchen<br>2. Caernarfon<br>3. Bethesda<br>4. Dyffryn Nantlle<br>5. Pwllheli<br>6. Porthmadog<br>7. Blaenau Ffestiniog<br>8. Dolgellau<br>9. Tywyn<br>10. Bala<br><br>Darpariaeth ar gael Tymor Ysgol yn unig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yr un peth yn cael ei gynnig i bawb rhwng 11-25 oed.<br><br>Lleihad o 50% yn y grant i'r 3ydd sector |
| Opsiwn 2 | Dal i ddarparu Clybiau Ieuenctid tymor ysgol i rai 11-25 oed ond gwneud llai ohono. Peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector.<br><br>(cau clybiau ieuenctid mewn cymunedau gwledig a pheidio rhoi grant i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Geidiaid na'r Sgowtiaid). | Cynnal 14 Clwb Ieuenctid yn<br>1. Maesgeirchen<br>2. Bangor<br>3. Caernarfon<br>4. Bethesda<br>5. Llanrug<br>6. Dyffryn Nantlle<br>7. Botwnnog<br>8. Pwllheli<br>9. Porthmadog<br>10. Blaenau Ffestiniog<br>11. Harlech<br>12. Tywyn<br>13. Dolgellau<br>14. Bala<br><br>Darpariaeth ar gael Tymor Ysgol yn unig.<br><br>Yr un peth yn cael ei gynnig i bawb 11-25 oed.<br><br>Dim grant i'r 3ydd sector. |
| Opsiwn 3 | Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir. Comisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol gan bartneriaid allanol. | Clwb Ieuenctid Sirol yn darparu rhaglen o brosiectau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau i bobl ifanc 11-19 oed gydol y flwyddyn.<br><br>Gweithiwr Ieuenctid yn cysgodi pob ysgol uwchradd.<br><br>Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gydag addysg, hyfforddiant neu waith.<br><br>Comisiynu'r 3ydd Sector i gynnal gweithgareddau, prosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuenctid yn ôl yr angen. |
| Opsiwn 4 | Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir. Creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc. | Clwb Ieuenctid Sirol yn darparu rhaglen o brosiectau a gweithgareddau mewn ysgolion a chymunedau i bobl ifanc 11-19 oed gydol y flwyddyn ( llai o weithgareddau nag opsiwn 3).<br><br>Gweithiwr Ieuenctid ynghlwm i bob ysgol uwchradd, (ond llai o gyswllt nag opsiwn 3).<br><br>Cefnogaeth bersonol i bobl ifanc 16-25 oed sy'n wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu gydag addysg, hyfforddiant neu waith.<br><br>Grant cymunedol (£40k) drwy Cist Gwynedd i unrhyw fudiadau tuag at weithgareddau pobl ifanc. |

6.3 Asesodd y Cabinet y 4 Opsiwn yn erbyn y meini prawf canlynol :-

- Gallu i gyfarch anghenion pobl ifanc ac ymateb i'r newid mewn tueddiadau yn y grwp oedran.

- Gallu i gyfarch y cyfeiriad lleol a ddymunir i'r gwasanaeth i'r dyfodol, gan gynnwys y cyd-destun statudol, a'r gallu i ymateb i'r cyfeiriad polisi presennol ac i'r dyfodol.
- Gallu i gyfarch y gyllideb bresennol ac yn y sefyllfa orau ar gyfer cyd-destun ariannol y dyfodol.
- Gallu i gyfarch yr her o ran recriwtio a chynnal gweithlu diogel.
- Sydd a'r lleiaf o effeithiau negyddol ac yn cynnig effeithiau positif ( Asesiad Effaith Cydraddoldeb)

6.4 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r asesiad opsiynau:

| | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** | **Opsiwn 4** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarch Anghenion<br>(barn pobl ifanc, tueddiadau) | | | | |
| Cyfarch y Cyd-destun<br>(polisi, strategol a statudol) | | | | |
| Cyfarch y Gyllideb<br>(fforddiadwy a chynaladwyedd) | | | | |
| Gallu i Gynnal Gweithlu<br>(recriwtio, hyfforddi a staffio) | | | | |
| Asesiad Effaith<br>(cydraddoldeb, gofodol, 3ydd sector) | | | | |

6.5 Yn seiliedig ar asesiad o'r opsiynau, daeth y Cabinet i benderfyniad mai Opsiwn 3 oedd yr opsiwn a ffafrir ar y pwynt hwnnw.

6.6 Penderfynodd y Cabinet fynd allan i ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir.

6.7 Gweler Adroddiad y Cabinet, 24 o Hydref 2017, sy'n cynnwys Adroddiad Adolygiad y Gwasanaeth Ieuenctid, yr Asesiad Opsiynau a'r Asesiad Effiath Cydraddoldeb cychwynnol yn https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=2228&ver=4&

**7 Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Opsiwn a Ffafrir.**

7.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiwn a ffafrir rhwng 10 o Dachwedd – 22 o Ragfyr 2017. Gweler ddadansoddiad o'r ymatebion yn atodiad 1.

7.2 Cafwyd 3,391 o ymatebion ( ar-lein / papur) gyda'r mwyafrif ohonynt (3.349) gan unigolion, yn hytrach na gan sefydliadau, a chanran uchel o'r rheiny yn y grŵp oedran 11-15 oed (69.4%).

7.3 Yn gyffredinol mae cefnogaeth i’r themâu y dylai’r Gwasanaeth Ieuenctid ganolbwyntio arno i’r dyfodol sef datblygu sgiliau, datblygiad personol a chefnogaeth iechyd a lles; gyda 63.3% o’r ymatebwyr yn nodi sgôr o 1 neu 2 (grêt) a 10.7% yn nodi sgôr o 4 neu 5 (gwael).

7.4 Yn yr un modd mae cefnogaeth gyffredinol bod angen pethau gwahanol ar bobl ifanc wrth iddyn nhw dyfu fyny, ac felly cefnogaeth i’r Gwasanaeth fod yn darparu rhaglen o weithgareddau hwyliog i rai 11-19 oed a chefnogaeth un i un i rai 16-25 oed; gyda 62.4% yn nodi sgôr o 1 neu 2 (grêt) a 5.9% yn nodi sgôr o 4 neu 5 (gwael).

7.5 Gofynnwyd i bobl nodi eu sylwadau ar yr opsiwn a ffafrir ac mae’r Tîm Ymchwil a Dadansoddeg wedi dadansoddi’r sylwadau hynny i themâu, a’u meintioli.

7.6 Mae nifer o themâu wedi eu hadnabod sy’n amlygu gwahanol gryfderau a chyfleoedd y gall yr opsiwn ei gynnig i bobl ifanc. Mae’r sylwadau ar draws nifer o themâu yn datgan cefnogaeth i’r opsiwn oherwydd ei fod yn cynnig cyfleoedd da i bobl ifanc, mwy o weithgareddau, cyfle i gymdeithasu, cael cefnogaeth a chymorth, cyfle i ddysgu sgiliau, cadw’n iach, codi hyder. Er hynny, roedd 21% o’r ymatebion wedi datgan nad oeddent yn gweld unrhyw beth da am yr opsiwn hwn.

7.7 Y prif bryder sydd wedi dod i’r amlwg yw fod 14% o’r ymatebwyr yn poeni fod eu clwb ieuenctid yn cau / nunlle ganddynt i fynd iddo, ac mae hyn i’w weld amlycaf o ardaloedd Y Moelwyn, Syr Hugh Owen a Tywyn, sydd yn cyd-fynd gyda rhai o glybiau mwyaf poblogaidd y Gwasanaeth ieuenctid presennol. Teithio oedd yn pryderu 7.9% o’r ymatebwyr a sut y byddent yn cael mynediad i weithgareddau a prosiectau y Gwasanaeth Ieuenctid i’r dyfodol. Wedi dweud hynny dylid nodi fod 38% o’r ymatebwyr wedi nodi nad oes dim yn eu poeni am yr hyn sy’n cael ei gynnig.

7.8 Nododd 36.8% o’r ymatebwyr na fyddent yn wynebu unrhyw rwystrau pe bai’r Gwasanaeth Ieuenctid yn newid i Raglen o Weithgareddau a Phrosiectau, a Gwaith Un i Un. Y prif rwystr (16.7%) yw teithio a chael mynediad i’r Gwasanaeth.

**8 Craffu’r Ail-fodelu.**

8.1 Mae Grŵp o bedwar aelod o’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi cyfarfod gyda’r Gwasanaeth Ieuenctid i drafod ail-fodelu’r gwasanaeth.

8.2 Cyflwynwyd Adroddiad i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23ain o Ionawr 2018 i gasglu mewnbwn y pwyllgor i’r cynllun ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae’r adroddiad a’r dogfennau cefndirol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Craffu i’w gweld yn
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=392&mid=2105&ver=4&>

8.3 Mae adborth y Pwyllgor Craffu i’w gweld yn y cofnod drafft yn Atodiad 2, neu drwy’r linc isod.

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2103/Cofnodion%20wedi%20eu%20cyhoeddi%2023ain-Ion-2018%2010.00%20Pwyllgor%20Craffu%20Addysg%20ac%20Economi.pdf?T=1&LL=1

**9. Adolygu’r Opsiwn a Ffafrir.**

9.1 Yn seiliedig ar yr adborth a’r ymatebion o’r ymgynghoriad cyhoeddus a’r broses craffu mae angen rhoi ystyriaeth benodol i’r materion canlynol :

| Mater | Ymateb / Newid |
| --- | --- |
| Teithio / Pellter / Mynediad i'r gweithgareddau a phrosiectau | Sicrhau fod y Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau yn symud yn ddigon rheolaidd; yn mynd i leoliadau cymunedol mewn pentrefi a threfi drwy'r sir; a parhau i gynnig cludiant ar gyfer rhai prosiectau / gweithgareddau.<br><br>Bydd angen sicrhau amlder gweithgareddau a prosiectau mewn rhai cymunedau – fel sydd wedi eu hadnabod yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, oherwydd difreintedd a dwysedd poblogaeth y gr?p oedran. |
| Clybiau yn Cau | Mae'r Opsiwn a Ffafrir wedi adnabod adnodd staff i gefnogi ymdrech wirfoddol i sefydlu clybiau ieuenctid gwirfoddol lleol. Byddai angen hyrwyddo'r cynnig hwnnw.<br><br>Sefydlu trefniadau ynghylch offer a chyfrifon y Clybiau Ieuenctid presennol a'u trosglwyddo i Glwb Gwirfoddol os y'i sefydlir, neu i fudiad / grŵp a gwerthoedd tebyg yn lleol.<br><br>Agor trafodaeth gyda'r Cynghorau Cymuned i adnabod diddordeb mewn cyfrannu tuag at gynnal Clybiau Ieuenctid lleol, a/neu gefnogi trefniadau gwirfoddol i gynnal Clybiau Ieuenctid.<br><br>Byddai trefniadau Clybiau Ieuenctid lleol drwy'r cynghorau cymuned a/neu drwy grwp gwirfoddol yn ychwanegu at Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor, ond nid yw'n ddibynnol arnynt. |
| Grantiau i'r Urdd a Ffermwyr Ifanc | Adnabu'r Cabinet fod i'r Opsiwn a ffafrir oblygiadau penodol i'r mudiadau hynny sy'n derbyn grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd, sef yr Urdd, Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri, Mudiad Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.<br><br>Mae'r Cabinet yn cydnabod cyfraniad y mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn ei wneud i ddiwylliant a'r Gymraeg yng Ngwynedd, i gymunedau ac i fywydau'r bobl ifanc hynny sy'n aelodau. Mae trafodaethau adeiladol wedi bod rhwng aelodau'r Cabinet gyda'r mudiadau.<br><br>Parhau i symud i ffwrdd o roi grantiau i'r mudiadau i sefydlu trefn o gomisiynu gweithgareddau yn ôl yr angen. Dylid defnyddio'r flwyddyn gyntaf i adnabod anghenion comisiynu, a sefydlu'r gyfundrefn ar y cyd gyda darparwyr posibl. Bydd y drefn gomisiynu yn seiliedig ar gyllideb ar gyfer gweithgareddau ac achrediadau. Mae'r gyllideb yn llai'n gyffredinol , ac felly bydd y gwariant ar gomisiynu hefyd yn sylweddol llai na'r lefel grantiau presennol. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn gwahodd partneriaid i ddarparu ar ei rhan pan na fydd yr arbenigedd, y sgiliau, na'r cysylltiadau |

| | |
|---|---|
| | ganddo i ddarparu ei hun. Mae’r meysydd comisiynu eto i’w cadarnhau ond mae’r broses ymgysylltu a’r ymgynghoriad wedi adnabod rhai blaenoriaethau.<br><br>Bydd cyfle i’r Urdd, Ffermwyr Ifanc ac eraill fod yn rhan o’r drefn gomisiynu hon.<br><br>Oherwydd maint y newid i’r Urdd a’r Ffermwyr Ifanc dylid cynnig gwerth 9 mis o grant iddynt, i’w wario yn ystod 2018-19. Dylid anfon rhybudd ffurfiol na fydd y grant gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau wedi hynny. |

**10. Y Cynnig**

10.1 Yn seiliedig ar adnabod a chraffu opsiynau, ymgynghori a chasglu barn, cynnal asesiad effaith argymhellir mai’r model gorau ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid i’r dyfodol yw symud i Opsiwn 3 gyda’r newidiadau a nodir yn 9 uchod.

10.2 Bydd y Model arfaethedig yn Darparu Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau i bobl ifanc 11-19 oed a Rhaglen Gymorth Un i Un wedi ei dargedu i rai 16-25 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith.

**10.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.**

10.3.1 Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o’r ddyletswydd mae’r Cyngor wed cyhoeddi amcanion llesiant sy’n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn “Cynllun Gwynedd 2018-2023”.

10.3.2 Mae adran 5.5 uchod yn nodi’r cyfeiriad yr argymhellir ar gyfer ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae’r cyfeiriad hwnnw yn cydblethu a 7 nod llesiant y Ddeddf, a gydag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cyfeiriad hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion pobl ifanc heddiw, heb danseilio llesiant pobl ifanc y dyfodol. Bydd y model arfaethedig yn caniatáu’r Gwasanaeth Ieuenctid i ymgymryd â rôl ataliol o gefnogi pobl ifanc i stopio problemau rhag codi yn y dyfodol.

10.3.3 Rydym wedi cynnwys mewnbwn nifer o’n partneriaid wrth ddatblygu’r cyfeiriad a’r cynnig ar gyfer ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid. Bydd y model arfaethedig yn caniatáu i ni adeiladu ar y gwaith yma drwy edrych ar ffyrdd newydd o weithio gyda’n partneriaid. Gall ganiatáu’r Gwasanaeth Ieuenctid i gyd-gynllunio, cyd-ddarparu ac integreiddio ymyraethau gyda chyrff eraill er lles pobl ifanc.

10.3.4 Bydd gan y Gwasanaeth Ieuenctid i’r dyfodol rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg pobl ifanc yng Ngwynedd drwy ei weithgareddau a’i brosiectau. Gall hefyd gefnogi pobl ifanc i adnabod atebion a phrosiectau i ymateb i’r materion sy’n effeithio arnyn nhw a’u cymunedau, a’u dyfodol.

**10.4 Effaith Cydraddoldeb**

10.4.1Mae gofyn i ni gynnal asesiad effaith cydraddoldeb o’r hyn yr argymhellir yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer yr opsiynau i gyd, ac yna fe’i diweddarwyd yn dilyn derbyn adborth yr ymgynghoriad cyhoeddus.

10.4.2 Mae’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi adnabod yr ardrawiad canlynol

- Effaith negyddol gyffredinol ar y grwp oedran (11-25 oed) oherwydd y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu llai yn unol â’i hadnoddau. Ond, bod effaith bositif ar y grwp oedran 16-25 oed oherwydd y bydd darpariaeth bwrpasol ar eu cyfer.

- Effaith negyddol posibl ar bobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig.

- Effaith negyddol posibl ar rai siaradwyr Cymraeg oherwydd y bydd llai o glybiau cymdeithasol iddynt ar gyfer cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Effaith negyddol posibl ar y gweithlu benywaidd gan fod y Gwasanaeth Ieuenctid presennol yn cyflogi mwy o ferched na dynion.

- Nid yw’r asesiad effaith wedi adnabod unrhyw effeithiau ar y grwpiau / nodweddion cydraddoldeb eraill yn sgil ail-fodelu’r Gwasanaeth.

10.4.3 Mae adran 9 uchod yn amlygu'r camau gellid eu cymryd i liniaru’r effeithiau hyn. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i’r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon nac aflonyddu. Nid ydym o’r farn fod yr asesiad effaith cydraddoldeb yn awgrymu gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

10.4.4 Mae copi o’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn Atodiad 3.

**10.5 Effaith ar y gweithlu**

10.5.1 Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynnwys y gweithlu yn y broses o adnabod y syniadau ers y cychwyn. Wrth Adolygu’r Gwasanaeth cynhaliwyd 2 Weithdy ar gyfer y Gweithwyr Rhan-amser (84 o 100 wedi mynychu ) a 2 weithdy ar gyfer Gweithwyr Llawn-amser a Gweithwyr Cefnogol (11 o 12 wedi mynychu) yn Hydref 2016. Mae’r Gweithwyr hefyd wedi bod yn cyfrannu i siapio’r syniadau drwy gymryd rhan yn yr arolwg (Ionawr-Mawrth 2017). Ers hynny mae cyflwyniadau a thrafodaethau wedi bod gyda’r gweithlu cyfan ym mis Chwefror 2017, Hydref 2017, a Chwefror 2018 i’w diweddaru ac i gasglu barn.

10.5.2 Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o’r Undebau perthnasol.

10.5.3. Gall penderfyniad y Cabinet i ail-fodelu’r Gwasanaeth Ieuenctid gael effaith ar hyd at 100 o staff rhan amser a 12 o staff llawn amser. Bydd y Gwasanaeth ar ei ffurf newydd yn golygu 21 swydd rhan amser a 19 swydd llawn amser.

10.5.4 Gall costau diswyddo ar gyfer symud i’r strwythur staffio newydd fod hyd at £138,000. Yn unol â gweithdrefnau adnoddau dynol, bydd disgwyl i nifer o’r gweithlu presennol drosglwyddo i’r strwythur newydd ond ni ellir cyfrifo’r gost diswyddo wirioneddol hyd nes y bydd yr unigolion wedi eu penodi.

**10.6 Goblygiadau Ariannol**

10.6.1 Mae’r Cyngor wedi penderfynu torri £200,000 ynghyd a rhoi targed o £70,000 o arbedion ar gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid.

10.6.2 Pe na bai’r Cabinet yn gallu dod i benderfyniad ar y cyfeiriad ar gyfer yr ail-fodelu bydd hynny’n arwain at lithriad yn yr amserlen a’r Gwasanaeth yn gorwario yn 2018.19.

10.6.3 Mae’r proffil ar gyfer y cwtogiad yn y gyllideb fel a ganlyn eisoes wedi ei derbyn gan y Cabinet:

| 2017.18 | 2018.19 | 2019.20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 116,000 | 89,000 | 65,000 | 270,000 |

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio £24,800 o'r arbedion o 2018/19 i 2019/20 er mwyn cyfarch peth ariannu o'r mudiadau gwirfoddol yn 2018-19, fel a ganlyn:

| 2017.18 | 2018.19 | 2019.20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 116,000 | 64,200 | 89,800 | 270,000 |

**10.7 Goblygiadau Eiddo**

10.7.1 Mae'r Cyngor yn berchen 5 adeilad / canolfan ieuenctid sydd yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth Ieuenctid. Caiff yr adeiladau eu defnyddio gan fwy nag un gwasanaeth. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn marchnata Canolfan Ieuenctid Harlech i'w gwaredu. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid mewn trafodaethau gydag adrannau mewnol eraill ynghylch Canolfan Ieuenctid Penygroes, Maesgeirchen a Caernarfon. Mae'r Gwasanaeth mewn trafodaeth gyda'r gymuned ynghylch adeilad Cefnfaes ym Methesda, a'r gymuned wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer trosglwyddo'r adeilad i reolaeth leol. Bydd penderfyniad y Cabinet ar ddyfodol y Gwasanaeth yn dylanwadu ar asesiad y Datganiad o Ddiddordeb hwnnw.

10.7.2 Mae i'r Gwasanaeth Ieuenctid nifer o adeiladau cymunedol eraill sydd wedi eu gosod ar brydlesi i Bwyllgorau lleol. Ni fydd y penderfyniad ar gyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol yn newid y prydlesi hynny.

10.7.3 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn llogi 36 Neuadd Bentref a 3 neuadd ysgol ar gyfer cynnal clwb ieuenctid. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn talu £25 y noson am y llogi. Mae rhai clybiau yn cael eu cynnal fwy nag un noson yr wythnos. Mae tua £34,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid ar hyn o bryd yn mynd i logi neuaddau. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid angen llogi gofod mewn neuaddau pentref ar gyfer darparu rhaglen o weithgareddau a phrosiectau yn y dyfodol. Byddai'r llogi am gyfnod llai, a gall fod oddi fewn i'r neuaddau yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mewn neuaddau nad ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Byddai llogi llefydd i gyfarfod yn ddibynnol ar y gweithgaredd / prosiect, ac argaeledd lle cyfarfod yn lleol. Byddai cyllideb o tua £40k y flwyddyn wedi ei glustnodi ar gyfer llogi llefydd cyfarfod o dan yr opsiwn a ffafrir. Gall penderfyniad y Cabinet i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid gael effaith ar gynaladwyedd rhai Neuaddau Pentref.

10.7.4 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn denant mewn 4 adeilad ar gyfer defnydd y Gwasanaeth yn unig. Mae 3 o'r adeiladau hynny yn eiddo'r cyngor ac felly mae'r goblygiadau incwm i wasanaethau eraill yn cael eu trafod gyda hwy. Mae'r adeilad arall o dan berchenogaeth cymunedol ac mae'r Gwasanaeth Adfywio Bro wedi bod yn cynnig cefnogaeth i'r Pwyllgor lleol hwnnw ar ddulliau i ymateb i golli incwm y Gwasanaeth Ieuenctid.

**11. Casgliadau ac Argymhellion**

11.1 Un o brif gasgliadau'r gwaith yma yw na fedr y gwasanaeth barhau fel y mae yn wyneb yr heriau sydd o'i flaen.

11.2 Mae gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw newid i'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn arbennig felly gan ddefnyddwyr presennol rhai Clybiau Ieuenctid a gan rheiny sy'n elwa o'r grant sy'n mynd i'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

11.3 Mae i bob opsiwn sydd wedi ei gyflwyno a'i drafod gan y Cabinet ei heriau a'i cyfleon ei hun. Mae'r Opsiwn sy'n cael ei gynnig erbyn hyn yn cynnig y ffordd orau ymlaen i Gyngor Gwynedd o ran ymateb i heriau'r Gwasanaeth Ieuenctid a phobl ifanc Gwynedd, ganfyddiadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

11.4 Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo mabwysiadau'r model arfaethedig fel y nodir yn 10 uchod fel y cyfeiriad i'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol.

11.5 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio'r cynllun arbedion "Ail ddylunio'r Gwasanaeth Ieuenctid" fel y nodir yn rhan 10.4.3 o'r adroddiad hwn.

**12. Atodiadau –**

Atodiad 1 – Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad 2 – Adborth y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (cofnod drafft)

Atodiad 3 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Prif Swyddog Cyllid:**

"Penderfynodd y Cabinet ar 27 Hydref 2017 i awdurdodi ymgynghoriad ar ffurf y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol, gan adnabod Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffafrir. Yn y cyfarfod hwnnw, wnes i gadarnhau fod Opsiwn 3 yn ffordd ymlaen fyddai'n fforddiadwy ac yn gwireddu'r toriad.

Rŵan mae'r ymgynghori wedi'i gynnal, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i fabwysiadu'r model a gynhigir fel y cyfeiriad i'r Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol. Gyda chefnogaeth y Cabinet i'r ail argymhelliad (yng nghymal 1.2 o'r adroddiad), byddwn yn addasu'r proffil arbedion fel nodir, er mwyn rhoi cyfraniad 9 mis i'r 2 fudiad yn 2018-19."

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae nifer o ystyriaethau i'w cloriannu wrth ddod i gasgliad ac yn benodol felly canlyniadau'r broses ymgynghori eang a gynhaliwyd yn dilyn penderfyniad y Cabinet Hydref 2017. Mae'r adroddiad yn cloriannu'r ystyriaethau perthnasol mewn modd priodol wrth arwain at yr argymhellion. Mae'r trefniadau pontio hefyd yn briodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."